Hawdd ei Ddeall

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Ein cynllun ar gyfer sicrhau bod pobl yn Sir y Fflint yn cael eu trin yn deg

**Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2024 a 2028**

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Gyngor Sir y Fflint**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint 2024–2028**'.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**

**Mawrth 2024**

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 33**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Cyngor Sir y Fflint**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch:

**Gwefan:** www.siryfflint.gov.uk

**E-bost:** busnescorfforaethol@siryfflint.gov.uk

**Ffôn:** 01267 224923

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

**Rhif Trwydded Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys


**Ynglŷn â'r cynllun hwn** .......... **4**

**Ein nodau cydraddoldeb** .......... **9**

Nod 1: Gwella iechyd, lles a gofal cymdeithasol .......... 9

Nod 2: Rhoi mwy o gefnogaeth i fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig a gwella lles .......... 13

Nod 3: Gwneud yn siŵr bod ein staff yn cynrychioli'r bobl yn ein hardal. Sicrhau bod pobl yn cael eu talu'n gyfartal .......... 16

Nod 4: Gwella diogelwch pobl â nodweddion gwarchodedig .......... 18

Nod 5: Rhoi mwy o gyfleoedd i bobl â nodweddion gwarchodedig ddefnyddio gwasanaethau. A chael dweud eu dweud am wasanaethau .......... 20

Nod 6: Gwella sut mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn byw .......... 24

Nod 7: Cefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi. Gwneud yn siŵr nad yw ein penderfyniadau yn effeithio ar bobl sy'n byw mewn tlodi .......... 28

**Beth sy'n digwydd nesaf** .......... **31**

**Geiriau Anodd** .......... **33**

# Ynglŷn â'r cynllun hwn



Dyma ein cynllun ar gyfer sicrhau bod pobl yn Sir y Fflint yn cael eu trin yn deg.




Mae'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud dros y 4 blynedd nesaf.



Rydym ni wedi gweithio gyda sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru i ysgrifennu'r cynllun hwn.




Mae'r cynllun hwn ar gael yn Saesneg, Cymraeg a ffurf Hawdd ei Ddeall. Byddwn yn ei roi ar ein gwefan.




Os ydych chi eisiau'r cynllun hwn mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.



Os hoffech chi ddweud eich dweud ar y cynllun hwn, cysylltwch â ni.



Mae ein e-bost a'n rhif ffôn ar **dudalen 2** o'r llyfryn hwn.

## Y cyfreithiau y gwnaethom ni feddwl amdanynt wrth ysgrifennu'r cynllun hwn

**Deddf Cydraddoldeb 2010**




Mae'r gyfraith hon yn amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn annheg yn y gwaith. A thrwy wasanaethau.




Mae gennym ni ddyletswydd i wneud y canlynol:

- Stopio triniaeth annheg a bwlio.



- Sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i fyw’n dda.

- Helpu pobl â **nodweddion gwarchodedig** a phobl nad ydynt yn cyd-dynnu’n dda.









Mae **nodweddion gwarchodedig** yn derm sy’n cael ei ddefnyddio i siarad am wahanol grwpiau o bobl. Gellir eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

Oedran

Anabledd

Newid rhywedd

Priodas a phartneriaeth sifil

Beichiogrwydd neu gael babi

Hil. Mae hyn yn cynnwys lliw croen, y wlad mae rhywun yn dod ohoni neu eu diwylliant

Crefydd a chred

Rhyw

Cyfeiriadedd rhywiol.

## Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'n rhaid i ni feddwl sut gall y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud helpu pobl:



- sydd yn byw mewn ardaloedd mwy tlawd,



- lle mae llai o gyfleoedd.


## Deddf Hawliau Dynol 1998




Mae'n rhaid i ni hefyd ddilyn Deddf Hawliau Dynol 1998. Enghreifftiau o hawliau dynol:

- Yr hawl i fywyd.
- Yr hawl i fywyd preifat a theuluol.
- Yr hawl i ddilyn eich crefydd neu gredoau eich hun.
- Yr hawl i beidio â chael eich trin yn annheg oherwydd pwy ydych chi.

**Mae’r cynllun hwn hefyd yn gysylltiedig gyda:**




- ein Cynllun y **Cyngor 2023-2028**



- ein nodau ar gyfer **lles**

> Mae **lles** yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda’i fywyd a’r hyn y maent yn ei wneud.



- a chynlluniau eraill sy’n helpu i hyrwyddo **cydraddoldeb**.

> Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg. A sicrhau eu bod nhw’n cael yr un cyfleoedd i wneud yn dda mewn bywyd.

# Ein nodau cydraddoldeb

## Nod 1: Gwella iechyd, lles a gofal cymdeithasol

### Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2028



- Gwneud yn siŵr bod pobl hŷn sy'n byw mewn pentrefi yn gallu cael gofal gartref.



- Darparu mwy o **ofal cam-i-lawr**. Mae hyn yn golygu gofal mewn ward ysbyty penodol, ysbyty cymunedol neu gartref gofal. Mae hyn ar gyfer pan nad ydych chi angen triniaeth feddygol mwyach yn yr ysbyty. Ond rydych chi angen ychydig o ofal neu amser cyn mynd adref. Bydd hyn yn helpu pobl hŷn i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gyflymach.



- Cefnogi **lles meddwl** pobl drwy gyrsiau sy'n cael eu rhedeg gan y Bartneriaeth Ddysgu.

**Lles meddwl** yw pan fyddwch chi'n hapus ac yn gyfforddus ynoch chi'ch hun. Rydych chi'n gweld eich bod chi'n gallu ymdopi'n dda.



- Gweithio gyda gwasanaethau tai i ariannu tîm bach. Byddant yn cefnogi pobl sydd â phroblemau **iechyd meddwl** i wella eu tai.

> **Iechyd meddwl** yw'r ffordd rydych chi'n teimlo yn eich meddwl. Mae'n ymwneud â'ch teimladau, meddyliau a lles.



- Cefnogi pobl anabl i gael swyddi drwy **Project Search**.




- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod sut i wneud cwyn. Felly gallwn ni ddelio â chwynion yn deg ac yn dda.



- Gwneud yn siŵr bod ein staff yn gwybod bod ganddynt ddyletswydd i atal pob math o **wahaniaethu**.

> **Gwahaniaethu** yw pan fyddwch yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.



- Gwirio cwynion am **hiliaeth**. A cheisio gweld a oes unrhyw batrymau.



Mae **hiliaeth** yn driniaeth annheg neu gas tuag at bobl oherwydd eu bod yn perthyn i hil benodol. Mae **gwrth-hiliaeth** yn golygu cymryd camau yn erbyn hiliaeth.

- Sicrhau bod staff yn cael:



  - Hyfforddiant **gwrth-hiliaeth**



  - Hyfforddiant **LHDTC+**

Mae **LHDTC+** yn golygu grwpiau Lesbiaidd, Hoyw, Traws, Cwiar a grwpiau eraill. Mae'n ymwneud â rhywioldeb a phwy mae pobl yn cael eu denu ato.



Gwneud yn siŵr ein bod yn cynnwys pobl o gefndiroedd **amrywiol** yn ein gwaith.

Mae **amrywiol** yn golygu nad ydym ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- Yn meddu ar alluoedd gwahanol
- Yn credu mewn gwahanol bethau
- Gyda hunaniaethau rhywiol gwahanol
- Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau
- O oedrannau gwahanol.



- Annog ein defnyddwyr gwasanaeth i lenwi ffurflenni am **gydraddoldeb**.



- Cael mwy o staff i ddefnyddio ein **Rhaglen Cymorth i Weithwyr y Cyngor**. Mae hwn yn wasanaeth sy'n rhoi mwy o gefnogaeth i'n staff.

# Nod 2: Rhoi mwy o gefnogaeth i fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig a gwella lles

## Beth fyddwn ni’n ei wneud erbyn 2028



- Cefnogi ysgolion i ddysgu straeon a hanesion pobl dduon, Asiaidd a **lleiafrifoedd ethnig**.

> Mae pobl o **leiafrifoedd ethnig** yn byw mewn mannau lle mae’r rhan fwyaf o bobl eraill yn hil wahanol.



- Gweithio gydag ysgolion i roi rhywun yn gyfrifol am **wrth-hiliaeth**.




- Dal ati i hyrwyddo Hwb. Gwefan i gefnogi athrawon a myfyrwyr i ddysgu.




- Gweithio gyda GwE. Gwasanaeth ar gyfer gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru. Gofyn iddyn nhw wirio pa mor dda mae ysgolion yn dysgu hanes pobl dduon, Asiaidd a **lleiafrifoedd ethnig**. A gwirio adroddiadau arolygu ysgolion ein hunain.



- Parhau i weithio gydag ysgolion i ddefnyddio'r system ar-lein i roi gwybod am fwlio.



- Rhoi adborth a chefnogaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd.



- Sicrhau y gall ysgolion ofalu am les y canlynol:
  - dysgwyr o gefndiroedd **lleiafrifoedd ethnig**
  - a dysgwyr **LHDTC+**.



- Parhau i weithio gyda phartneriaid fel:
  - **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth**
  - a **Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru**.



- Hyrwyddo canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch **gwahardd** o ysgolion. Mae hyn yn golygu pan fyddwch chi'n cael eich tynnu o'r ysgol. Gweithio i atal dysgwyr sydd â **nodweddion gwarchodedig** rhag cael eu gwahardd yn fwy nag eraill.



- Darganfod faint o bobl Dduon, Asiaidd a **lleiafrifoedd ethnig** sy’n mynd i ysgolion Cymraeg.




- Dod o hyd i ffyrdd i gymunedau **lleiafrifoedd ethnig** gymryd rhan mewn prosiectau Cymraeg. A sicrhau bod prosiectau’n casglu gwybodaeth **cydraddoldeb** am y bobl sy’n cymryd rhan.




- Defnyddio **canllawiau traws cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion** pan fydd yn barod.



- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu Fforwm Ieuenctid **LHDTC+**.

## Nod 3: Gwneud yn siŵr bod ein staff yn cynrychioli'r bobl yn ein hardal. Sicrhau bod pobl yn cael eu talu'n gyfartal

### Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2028



- Gwella sut rydym ni'n recriwtio staff i sicrhau ein bod yn trin pobl yn deg.




- Gwneud yn siŵr bod ein polisïau yn cefnogi teuluoedd.



- Sicrhau bod gan ein staff gyflog teg a chontractau.




- Cefnogi mwy o staff i ddefnyddio ein **Rhaglen Cymorth i Weithwyr**.




- Gwirio sut rydym ni'n talu pobl bob blwyddyn. Cymryd camau os oes unrhyw fylchau cyflog annheg yn y ffordd mae pobl yn cael eu talu.



- Annog staff i lenwi ffurflenni **cydraddoldeb**.




- Cyhoeddi ein **hadroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu**. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y mathau o bobl sydd gennym ni mewn gwahanol swyddi.



- Gwneud yn siŵr bod staff yn cael yr hyfforddiant ymwybyddiaeth **LHDTC+** newydd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod staff yn deall anghenion, hawliau a phroblemau **LHDTC+**.




- Cymryd camau i gyflawni'r nodau yng **Nghynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru**.

# Nod 4: Gwella diogelwch pobl â nodweddion gwarchodedig

## Beth fyddwn ni’n ei wneud erbyn 2028



- Cofnodi gwybodaeth am denantiaid cyngor sy’n profi **troseddau casineb**.



Mae **tenant cyngor** yn rhywun sy’n rhentu tŷ cyngor neu fflat cyngor.



Mae **troseddau casineb** yn profi aflonyddu neu ymosodiad oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod yn wahanol.



- Darparu sesiynau cymunedol mewn ardaloedd lle mae llawer o droseddau. Cefnogi pobl ifanc a allai fod mewn perygl.



- Parhau i gymryd rhan yn **Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb**.



- Casglu gwybodaeth am adroddiadau **troseddau casineb**. Cymryd camau i ddatrys y materion.

# Nod 5: Rhoi mwy o gyfleoedd i bobl â nodweddion gwarchodedig ddefnyddio gwasanaethau. A chael dweud eu dweud am wasanaethau

## Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2028



- Hyrwyddo teithio llesol. Mae hyn yn golygu teithio i'r man lle mae angen i chi deithio gan ddefnyddio'ch corff. Er enghraifft, cerdded a beicio.



Gwella ein llwybrau cerdded a beicio. A gwneud yn siŵr y gallant gael eu defnyddio gan bobl hŷn a phobl anabl.



- Cefnogi datblygiad rhwydwaith gwefru cerbydau trydan. Mae hyn er mwyn i bobl sydd â cherbydau trydan fel ceir eu gwefru. Gwneud yn siŵr y gall pawb ei ddefnyddio.



- Cynnal cynlluniau fel y gall pobl deithio i wasanaethau a'u defnyddio'n hawdd. Fel:

  - ein **Strategaeth Trafnidiaeth Integredig** - cysylltu gwahanol fathau o drafnidiaeth i'w gwneud hi'n haws i bobl deithio.



  - a'n **Strategaeth Toiledau Cyhoeddus** – sicrhau bod toiledau da, glân a hygyrch i bobl.



- Ysgrifennu cynllun i helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn ein gwaith. A gwneud yn siŵr bod y ffordd yr ydym ni'n dewis ein haelodau etholedig yn deg i bawb.



- Gwneud yn siŵr bod aelodau etholedig, fel cynghorwyr lleol, yn trin pawb yn deg.



- Cynnig hyfforddiant i aelodau etholedig, fel:

  - Hyfforddiant **gwrth-hiliaeth**

  - Hyfforddiant i ddeall anghenion a diwylliant cymunedau **Sipsiwn a Theithwyr**




Mae **cymunedau Sipsiwn** a Theithwyr yn grwpiau o bobl sydd weithiau'n teithio o le i le.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo y gallant gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. Fel pleidleisio. Gwneud hyn drwy wneud adnoddau sy'n annog pobl i gymryd rhan. A'u helpu i ddeall sut i ddod yn aelod etholedig.



- Dweud wrth bobl am y **Gronfa Mynediad at Swyddi Etholedig** ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf yn 2027.



- Cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol. Fel cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd.




- Dal ati i roi rhyngrwyd am ddim yng Nghanolfannau Cysylltu Sir y Fflint.




- Hyrwyddo gwasanaethau cyfieithu iaith Big Word.



- Gwella mynediad at wahanol ffyrdd a llwybrau drwy ein **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**.



- Dod o hyd i ffyrdd o ddatblygu Parc Arfordir Sir y Fflint.



- Dechrau grŵp i sicrhau bod llais gan bobl sy'n byw gyda **dementia**.

Mae **dementia** yn gyflwr sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae pobl â dementia yn cael problemau gyda'r cof a gallant fod yn ddryslyd. Fel arfer mae'n effeithio ar bobl hŷn.

# Nod 6: Gwella sut mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn byw

## Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2028



- Dod o hyd i le i gynnig gwasanaethau tai a chefnogaeth i bobl ifanc.



- Darparu mwy o dai â chymorth.



- Gwella'r ffordd rydym ni'n trefnu ac yn prynu gwasanaethau gan sefydliadau sy'n addasu cartrefi i bobl anabl.




- Sicrhau bod gwasanaethau tai gwarchod yn diwallu anghenion pobl.




- Gwneud yn siŵr bod ein tîm digartrefedd yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth **LHDTC+**.



- Gwella sut rydym yn casglu gwybodaeth **cydraddoldeb** am y canlynol:
  - pobl sydd wedi'u cofrestru fel rhai digartref
  - tenantiaid y cyngor.



- Gwneud safle ar gyfer **cymunedau sipsiwn a theithwyr**. I sicrhau bod ganddynt amodau byw gwell.



- Gwella mynediad **Sipsiwn a Theithwyr** i wasanaethau iechyd.



- Cael cyllid i sicrhau bod Wi-Fi ar safleoedd **Sipsiwn a Theithwyr**.



- Cefnogi **ceiswyr lloches a ffoaduriaid** i fyw yn yr ardal.



Mae **ceisiwr lloches** yn rhywun sy'n gadael eu gwlad i ddianc rhag perygl. Maen nhw'n gofyn am fyw mewn gwlad arall.

Mae **ffoaduriaid** yn bobl sydd wedi cael eu gorfodi i adael eu gwlad am eu bod mewn perygl.



- Edrych ar hyfforddiant ar-lein Tai Pawb am **wrth-hiliaeth**.




- Canolbwyntio ar ddeall anghenion tai pobl o **leiafrifoedd ethnig**.



- Adeiladu mwy o gartrefi y gall pobl eu fforddio. Ac sy'n diwallu anghenion grwpiau **lleiafrifoedd ethnig** ac eraill.




- Ymateb yn gyflym i gwynion am **hiliaeth** a **throseddau** casineb gan denantiaid y cyngor. A chynnig y gefnogaeth gywir.




- Gwella ffyrdd o gofnodi gwybodaeth am dai.



- Datblygu cynllun i gynnwys pobl, sefydliadau a chymunedau **lleiafrifoedd ethnig** yn well.

# Nod 7: Cefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi. Gwneud yn siŵr nad yw ein penderfyniadau yn effeithio ar bobl sy'n byw mewn tlodi

## Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2028



**Tlodi** yw pan nad oes gan rywun y pethau pwysig maen nhw eu hangen i fyw'n dda. Mae hyn yn golygu nad oes ganddyn nhw bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.




- Datblygu ein hwb cymunedol fel y gall pobl barhau i ddefnyddio gwahanol:
  - rhaglenni cymorth
  - gwasanaethau
  - ac asiantaethau mewn 1 lle.



- Cael cynlluniau cymorth i helpu pobl mewn gwaith sy'n profi **tlodi**.



- Darparu cynlluniau cymorth Llywodraeth Cymru i helpu gyda chostau byw.



- Gwneud mwy o bobl yn ymwybodol o’r gefnogaeth sydd ar gael. Dweud wrth bobl am:
  - Y budd-daliadau y gallent eu hawlio.
  - **Cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn**. Mae hwn yn arian i gefnogi pobl gyda chost rhent neu gostau tai.



- Parhau i ddatblygu’r gwasanaeth prydau yn y cartref. A’r gwasanaeth bwyd o Ysbyty i Gartref.



- Gweithio gyda sefydliadau i ddarparu lleoedd cynnes i bobl.




- Gwneud cartrefi’n well wrth ddefnyddio ynni ar gyfer pethau fel gwresogi a choginio. I leihau biliau ynni.



- Cefnogi pobl sydd mewn perygl o dlodi **tanwydd**. Mae hyn yn golygu pan na allwch chi fforddio cynhesu'ch cartref.



- Gweithio gyda busnesau i gyflogi pobl o grwpiau sydd â llai o gyfleoedd i wneud yn dda mewn bywyd.



- Gweithio gyda Phrifysgol Manceinion i weld sut y gallai rhywbeth effeithio ar bobl. Yr enw ar hyn yw **Asesiad o Effaith**.

# Beth sy'n digwydd nesaf

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i gyflawni ein nodau



Byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth **cydraddoldeb** gan y canlynol:

- Gweithleoedd
- Ysgolion
- Gwasanaethau




Rhaid i bob sefydliad wirio sut y gallai eu polisïau a'u gweithdrefnau effeithio ar **grwpiau gwarchodedig**.




Byddwn yn rhoi hyfforddiant i'n staff i'w helpu i gyflawni ein nodau **cydraddoldeb**.





Byddwn yn dilyn y rheolau ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau. I sicrhau ein bod yn deg ac yn gyfartal.

# Gweld sut mae ein cynllun yn mynd





Byddwn yn gwneud cynllun gweithredu.




Byddwn yn ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad yn dweud sut rydym ni'n gwneud gyda'n nodau. Ac yn cynnwys gwybodaeth am **gydraddoldeb**.




Byddwn yn edrych ar y cynllun hwn ac yn diweddaru'r cynllun gweithredu bob blwyddyn.




Byddwn yn gwirio ein 7 nod ac yn gwneud newidiadau os oes angen.

# Geiriau Anodd

## Amrywiol ac Amrywiaeth

Mae amrywiol yn golygu nad ydym i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- Yn meddu ar alluoedd gwahanol
- Yn credu mewn gwahanol bethau
- Gyda hunaniaethau rhywiol gwahanol
- Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau
- O oedrannau gwahanol.

## Ceisiwr lloches

Mae ceisiwr lloches yn rhywun sy'n gadael eu gwlad i ddianc rhag perygl. Maen nhw'n gofyn am fyw mewn gwlad arall.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg a sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

## Dementia

Mae dementia yn gyflwr sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae pobl â dementia yn cael problemau gyda'r cof a gallant fod yn ddryslyd. Fel arfer mae'n effeithio ar bobl hŷn.

## Ffoaduriaid

Mae ffoaduriaid yn bobl sydd wedi cael eu gorfodi i adael eu gwlad am eu bod mewn perygl.

## Gwahaniaethu

Gwahaniaethu yw pan fyddwch yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

## Hiliaeth

Mae hiliaeth yn driniaeth annheg neu gas tuag at bobl oherwydd eu bod yn perthyn i hil benodol. Mae gwrth-hiliaeth yn golygu cymryd camau yn erbyn hiliaeth.

## Iechyd meddwl

Iechyd meddwl yw'r ffordd rydych chi'n teimlo yn eich meddwl. Mae'n ymwneud â'ch teimladau, meddyliau a lles.

## LHDTC+

Mae LHDTC+ yn golygu grwpiau Lesbiaidd, Hoyw, Traws, Cwiar a grwpiau eraill. Mae'n ymwneud â rhywioldeb a phwy mae pobl yn cael eu denu ato.

## Lles

Mae lles yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn y maent yn ei wneud.

## Lles meddwl

Lles meddwl yw pan fyddwch chi'n hapus ac yn gyfforddus ynoch chi'ch hun. Rydych chi'n gweld eich bod chi'n gallu ymdopi'n dda.

## Lleiafrifoedd ethnig

Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn byw mewn mannau lle mae'r rhan fwyaf o bobl eraill yn hil wahanol.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn derm a ddefnyddir i siarad am wahanol grwpiau o bobl sy'n cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

Oedran

Anabledd

Newid rhywedd

Priodas a phartneriaeth sifil

Beichiogrwydd neu gael babi.

Hil. Mae hyn yn cynnwys lliw croen, y wlad mae rhywun yn dod ohoni neu eu diwylliant.

Crefydd a chred

Rhyw

Cyfeiriadedd rhywiol

## Sipsiwn a Theithwyr

Mae cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn grwpiau o bobl sydd weithiau'n teithio o le i le.

## Tlodi

Tlodi yw pan nad oes gan rywun y pethau pwysig maen nhw eu hangen i fyw'n dda. Mae hyn yn golygu nad oes ganddyn nhw bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.

## Trosedd casineb

Mae troseddau casineb yn profi aflonyddu neu ymosodiad oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod yn wahanol.